

Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored

Tystysgrif Addysg i Raddedigion

Strategaeth Pobol Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (2022–2025)

Cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu cynrychiolaeth o athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru i gyfateb ag amrywiaeth ethnig poblogaeth y disgyblion.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, roedd 5 y cant o'r holl newydd-ddyfodiaid i Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru yn dod o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.¹ Mae Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored wedi cofrestru dwy garfan o athrawon dan hyfforddiant; yn 2020, nododd 5 allan o 126 (4 y cant) eu bod yn dod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; gyda 7 allan o 139 (5 y cant) yn rhan o garfan 2021.²

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, cofrestrodd 5 allan o 124 o fyfyrwyr (5 y cant) â'r Brifysgol Agored a 9 allan o 181 o fyfyrwyr (5 y cant) yn y flwyddyn academaidd 23/34.

Gweledigaeth

Bydd Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn cyflwyno rhaglen TAR gynhwysol a fydd yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr o athrawon dan hyfforddiant Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cofrestru ac yn cwblhau cwrs AGA yn llwyddiannus. Bydd hyn yn cyfrannu at y broses o amrywiaethu'r gweithlu o athrawon yng Nghymru.

Trosolwg

Felly, bydd strategaeth Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn llywio'r camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at y broses o gyflawni a chynnal y weledigaeth hon. Er mwyn gwneud hyn, mae angen mynd i'r afael â phob agwedd ar Raglen TAR Y Brifysgol Agored, gan gynnwys y broses

recriwtio, profiad myfyrwyr ac amrywiaeth yn y gweithlu yn ogystal â rhyngweithio â phartneriaid a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ehangach.

Drwy fabwysiadu dull gwrth-hiliol o lunio a gweithredu swyddogaethau a pholisïau a dangos ymagwedd dim goddefgarwch tuag at hiliaeth, mae Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn ymrwmo i barhau i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu, a chael ei dwyn i gyfrif.


Mae'r meysydd â blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi, gyda chamau gweithredu wedi'u cynnig ar gyfer llwyddo o fewn y tymor byr (blwyddyn); y tymor canolig (1-3 blynedd) a'r hirdymor (3 blynedd+). Bydd athrawon dan hyfforddiant cwrs TAR Y Brifysgol Agored, cydweithwyr Y Brifysgol Agored (unigolion sy'n addysgu a rhai nad ydynt yn addysgu), partneriaid a chymunedau yn cymryd rhan weithredol er mwyn cefnogi'r broses o roi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar waith. Bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu hyn yn cael eu hadolygu'n gyson, a bydd adolygiadau cyfnodol ffurfiol yn cael eu cynnal ar ôl 18 mis (Ionawr 2024) a thair blynedd (Gorffennaf 2025). Bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cael eu hadolygu'n unol â hynny er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau presennol Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored a Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022) [Bwletin Ystadegol: Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru, 2020/21](#). t. 23.

² Ar gyfer carfan 2020, ni chafwyd ymateb gan un o'r athrawon dan hyfforddiant ar ethnigrwydd, ac ni chyflwynodd 12 ohonynt, a oedd yn rhan o garfan 2021, ymateb mewn perthynas ag ethnigrwydd.

O fis Awst 2023, cynyddodd nifer y ceisiadau gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer blwyddyn academaidd 23/34 o 36% o'i gymharu â blwyddyn academaidd 22/23.

Strategaeth Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored



Maes Gwybodaeth am y flaenoriaeth
Blaenoriaeth

- 1 Mae pob agwedd ar y broses recriwtio a phob cam ohoni yn gynhwysol ac yn cefnogi ymgeiswyr, darpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr posibl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer AGA yn rhagweithiol.

- 2 Mae cynnwys y cwrs a'r deunyddiau ategol yn adlewyrchu, parchu ac yn cynnwys profiadau bywyd, diwylliannau a threftadaeth amrywiol.
- 3 Mae myfyrwyr a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu a helpu i ehangu dealltwriaeth a meithrin sgiliau er mwyn rhoi ymarfer gwrth-hiliol ar waith ym maes addysg athrawon, gan roi trefniadau cydgynhyrchiol ar waith.
- 4 Mae ymarfer gwrth-hiliol yn cael ei gynnwys fel elfen drawsbynciol a phenodol ym mhrosesau datblygiad proffesiynol parhaus pob myfyriwr, aelod o staff a'r bartneriaeth yn ehangach.
- 5 Mae prosesau a gweithdrefnau'r rhaglen ar gael yn rhwydd, yn dryloyw ac yn gefnogol ac maent yn galluogi'r staff a'r myfyrwyr i roi gwybod am bryderon a chwynion a all gynnwys materion a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â hil ac yn eu hannog i wneud hynny.
- 6 Caiff y cynnydd yn erbyn y strategaeth a'r cynllun gweithredu ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd o fewn strwythur llywodraethu Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn ystod y Pwyllgor Partneriaeth a'i gynnwys ym mhob arfarniad blynyddol o berfformiad y staff yn y dyfodol.

Mae'r cynllun gweithredu canlynol yn rhoi syniad o'r camau sydd angen eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau ac mae'n cynnwys y themâu *arweinyddiaeth a llywodraethu, cydgynhyrchu, adnoddau, cylch oes myfyriwr, rhyngwyneb cyhoeddus a monitro a gwerthuso*. Mae'r themâu hyn wedi'u cydblethu â phob blaenoriaeth. Mae rhai targedau penodol ac effeithiau a chanlyniadau disgwylidig wedi'u cyflwyno hefyd. Bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn unol â hynny. Bydd hyfforddiant, systemau monitro ac archwilio'r cwrs ac adnoddau yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion a nodweddion penodol Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored wrth gydgyhyrchu â myfyrwyr, cyflogeion, partneriaid, grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr perthnasol.

Maes Gwybodaeth am y Flaenoriaeth, Adolygiad o'r Camau a gymerwyd
Blaenoriaeth yn ystod Blwyddyn Academaidd 22/23

1	<ul style="list-style-type: none"> - Eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd Is-bwyllgor RAR gyda'r arweinydd strategol yn darparu adroddiad bob tymor - Mewnbyn gan gynrychiolwyr myfyrwr mewn cyfarfodydd tymhorol y Senedd Fach ac ar brosesau'r strwythur llywodraethu - Deunyddiau marchnata yn adlewyrchu cynhwysiant. - Adolygiad blynyddol o'r broses gyfweid a choladu arolygon/adborth gan fyfyrwr er mwyn parhau i fyfyrion ar brosesau a'u mireinio - Sicrhau cysylltiadau cryfach â'r broses o gyfathrebu marchnata er mwyn datblygu strategaethau marchnata newydd, gan gynnwys tudalennau cyfryngau cymdeithasol â thâl a phresenoldeb mewn digwyddiadau. - cynnydd o 36% mewn ceisiadau gan bobl Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig ar gyfer rhaglen 23/24 - Hyrwyddo'r grant cymell sydd ar gael ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig
2	<ul style="list-style-type: none"> - Eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Addysgu a Dysgu gyda'r arweinydd strategol yn darparu adroddiad bob tymor - Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi'i chynnwys yn y gyfres o seminarau - Gwahoddir pob un o Diwtoriaid y Cwricwlwm i gwblhau'r rhaglen Union Black
3	<ul style="list-style-type: none"> - Gweithgor myfyrwr wedi'i sefydlu - Arolwg wedi'i lunio er mwyn adolygu nifer y myfyrwr a wnaeth gais am y Grant Cymell ac i godi ymwybyddiaeth o'r strategaeth
4	<ul style="list-style-type: none"> - Staff yn cwblhau hyfforddiant Union Black - Tair sesiwn o seminarau Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi'u darparu i bob myfyriwr - Ymgysylltu â grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Y Brifysgol Agored gan ddysgu drwy drafod a chynnal gwaith ymchwil gweithredol
5	<ul style="list-style-type: none"> - Rhannu prosesau a gweithdrefnau drwy becynnau croeso i fyfyrwr a fforymau pwnc
6	<ul style="list-style-type: none"> - Eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd pob is-bwyllgor a'r Pwyllgor Partneriaeth - Cynlluniau gweithredu wedi'u hadolygu bob tymor

Cynllun Gweithredu

Maes Blaenoriaeth	Arweinyddiaeth a Llywodraethu	Cydgynhyrchu	Adnoddau	Cylch Oes Myfyrwyr	Rhyngwyneb Cyhoeddus	Monitro a Gwerthuso	Cynllun Gweithredu 2023/24
1: Proses recriwtio gynhwysol a rhagweithiol	Cylch gwaith yr Is-bwyllgor Recriwtio, Derbyn a Chadw (eitem sefydlog ar yr agenda)	<ul style="list-style-type: none"> Mewnbyn gan gynrychiolwyr myfyrwyr y Senedd Fach Panel cyfweld amrywiol 	<ul style="list-style-type: none"> Deunyddiau marchnata sy'n adlewyrchu cynhwysiant. Y broses o recriwtio staff yn annog ceisiadau gan bobl o gefndiroedd amrywiol (wedi'i llywio gan brosesau'r Brifysgol Agored) 	<ul style="list-style-type: none"> Gwerthusiad o'r broses gyfweld Adborth ar ganlyniad y cyfweiliad Adolygiadau gan fyfyrwyr 	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghoriad ar Twitter Gweithio gyda Phartneriaethau Y Brifysgol Agored yng Nghymru a Thimau Cyfathrebu Marchnata Ymgynghori â grwpiau cymunedol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno data i Gyngor y Gweithlu Addysg/Llywodraeth Cymru Yn bwydo i mewn i Strategaeth Marchnata cyffredinol Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored Adrodd ar strategaethau cynhwysol ehangach Y Brifysgol Agored 	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu'r defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol amrywiol er mwyn ymgysylltu â phoblogaeth amrywiol o fyfyrwyr. Parhau i fonitro'r data a gaiff eu cyflwyno i Gyngor y Gweithlu Addysg. Ystyried y posibilrwydd o greu blogiau ac asedau marchnata gan fyfyrwyr/staff o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig a'u rhannu ar lwyfannau amrywiol Parhau i hyrwyddo'r grant cymell ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig Parhau i ddatblygu a chryfhau'r strategaeth yn ystod cyfarfodydd yr is-bwyllgor Recriwtio, Derbyn a Chadw, gan geisio cyfleoedd mewn ysgolion partner arweiniol i gynnig diwrnodau profiad a chynlluniau dysgu unigol er mwyn bodloni gofynion mynediad.
2: Cynnwys y cwrs	Eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Addysgu a Dysgu	Adborth gan fyfyrwyr a'r gymuned / cydgynhyrchu deunyddiau'r cwrs	Adnodd archwilio	Cofrestru myfyrwyr a chanlyniadau Dadansoddi a sylwadau – nid yn unig y data yr edrychwyd arnynt yn ystod cyfarfodydd academaidd	Cynnwys y cwrs sydd ar gael yn gyhoeddus i adlewyrchu amrywiaeth y cynnwys	Cofrestru myfyrwyr a chanlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu a chryfhau'r strategaeth yng nghyfarfod yr is-bwyllgor Addysgu a Dysgu. Cydlynwyr y cwricwlwm i sicrhau y gall myfyrwyr gael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi eu dysgu mewn ysgolion a'u bod yn ymwybodol ohonynt.
3: Cydgynhyrchu	Cynrychiolaeth myfyrwyr (y Senedd Fach)	Adborth gan fyfyrwyr a'r gymuned/cydgynhyrchu deunyddiau'r cwrs/gwerthuso a monitro	Adborth gan fyfyrwyr a'r gymuned ar ddeunyddiau'r cwrs	Mewnbyn gan fyfyrwyr sydd ar wahanol gamau o'r profiad TAR	Ymgynghori â grwpiau cymunedol – mewn perthynas â deunyddiau'r	Proses Adolygu	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori â gweithgorau Meithrin cydberthnasau â sefydliadau trydydd parti Ehangu ar y gweithgor i gynnwys cynrychiolwyr addysg ac athrawon

					cwrs a'r ymgyrchoedd marchnata		– Sicrhau y caiff cynrychiolydd myfyrwyr newydd ei enwebu ar gyfer blwyddyn academaidd 23/24
4: Trawstorri / Hyfforddiant ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus	Yr Is-bwyllgor Dysgu Proffesiynol (eitem sefydlog ar yr agenda)	Rhannu enghreifftiau/ymarfer effeithiol Adolygu'r cynnig hyfforddiant	Hyfforddiant Union Black ar gyfer pob aelod o staff y Bartneriaeth	Seminarau (e.e. Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth)	Ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r hyfforddiant sydd ar gael i staff/myfyrwyr	Nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Union Black	<ul style="list-style-type: none"> – Parhau i hyrwyddo'r broses o gwblhau'r hyfforddiant Union Black – Gweithio gyda'r Brifysgol Agored i gyflwyno hyfforddiant Union Black i ysgolion partner – Parhau i gynnig seminarau Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i fyfyrwyr – Ystyried datblygu modiwl hyfforddiant gorfodol ar wrth-hiliaeth
5: Prosesau a gweithdrefnau tryloyw	Pwyllgor Partneriaeth	Mewnbyn y myfyrwyr a'r gymuned ar brosesau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd	Y weithdrefn gwyno	Cyfathrebu â myfyrwyr Pecyn croeso i fyfyrwyr a staff Fforwm pwnc	Ymgynghori â grwpiau cymunedol – ar addasrwydd y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith	Sicrhau bod yr holl ganlyniadau monitro a gwerthuso ar gael ar gyfer y Bartneriaeth	<ul style="list-style-type: none"> – Ymgynghori â'r gweithgor a grwpiau cymunedol – Parhau i gyfathrebu'n effeithiol â myfyrwyr, staff ac ysgolion partner am y prosesau a'r gweithdrefnau
6: Monitro a gwerthuso (maes blaenoriaeth cyffredinol)	Y gweithgor i ddiweddarar'r cynllun gweithredu fel y bo'n briodol	Cynrychiolydd myfyrwyr i adolygu'r holl drefniadau a dylid ymgynghori â'r gymuned ehangach	Cynllun gweithredu a monitro – dogfen fyw	Pob cam o gylich oes myfyrwyr – ymgeisio, cyfweiliad, cofrestru, sefydlu, astudio, asesiad, cwblhau	Tryloywder canlyniadau'r broses fonitro a gwerthuso	Ymgymryd â phroses anffurfiol a ffurfiol	<ul style="list-style-type: none"> – Parhau i sicrhau ansawdd y prosesau a'r gweithdrefnau. – Parhau i ddatblygu prosesau monitro a gwerthuso

Mae'r canlynol yn darparu rhagor o fanylion am y camau gweithredu allweddol a fydd yn cefnogi'r cynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau Strategaeth Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored. Mewn rhai achosion, bydd cam gweithredu yn mynd i'r afael â mwy nag un o feysydd â blaenoriaeth y strategaeth.

Darperir yr effaith ar y rhaglen a'r bartneriaeth, yn ogystal â syniad o'r sefyllfa ym mis Gorffennaf 2023 gan y mesur sylfaenol ac mae'r targedau arfaethedig parhaus ar gyfer mis Ionawr 2024 wedi'u cynnwys i gefnogi'r cynnydd.

Cam gweithredu	Effaith	Llinell sylfaen – Gorffennaf 2022	Sylw	Adolygu	Targed y cynnydd – Ionawr 2024
Strategaeth marchnata yn annog ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol i wneud cais ar gyfer y rhaglen TAR	Cyfran gynyddol o garfan myfyrwyr AGA Y Brifysgol Agored o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.	Mae 5% o garfan y myfyrwyr sydd yn eu blwyddyn gyntaf o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.	Mae ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol a gynhelir yn y tymor byr yn sicrhau cynrychiolaeth; mewnbwn tymor canolig hyd at fewnbwn hirdymor gan banel wedi'u sefydlu, (gallai hyn gynnwys rôl cennad â thâl ychwanegol gan ddibynnu ar y cyllid).	<ul style="list-style-type: none"> – Cynrychiolaeth gan fyfyrwyr amrywiol mewn deunyddiau marchnata amrywiol, gan gynnwys llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, erthyglau ac ymgyrchoedd. – Parhau i hyrwyddo Grantiau Cymell ar gyfer AGA – 5% yw'r gyfradd recriwtio o hyd, ond mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu o bron i 40% o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd 22/23. 	<ul style="list-style-type: none"> – Mae 6% o garfan y myfyrwyr sydd yn eu blwyddyn gyntaf o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
Panel cyfweld myfyrwyr amrywiol wedi'i sefydlu	Mae ymgeiswyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gweld eu bod yn cael eu cynrychioli yn ystod y cam cyfweld.	Ni chaiff amrywiaeth ei gynrychioli ar baneli cyfweld.	Tymor byr – recriwtio cynrychiolwyr o ysgolion partner; tymor canolig hyd at yr hirdymor – bydd y cynrychiolwyr hyn yn ffurfio panel a byddent yn elfen hanfodol o'r agenda hon ar gyfer Y Brifysgol Agored	<ul style="list-style-type: none"> – Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu cefnogi a'u cyfeirio at ddeunyddiau a chyrsiau a bydd Y Brifysgol Agored yn rhoi adborth iddynt ar y meysydd i'w datblygu a'r ffordd o fodloni'r gofynion mynediad. – 	<ul style="list-style-type: none"> – Parhau i amrywio aelodaeth ar gyfer paneli cyfweld ymgeiswyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig drwy recriwtio ysgolion partner – Datblygu cydberthnasau gwaith â chyn-fyfyrwyr er mwyn ffurfio rhan o'r gweithgor a'r paneli recriwtio a dethol.
Proses adborth wedi'i rhoi ar waith ar gyfer Cynrychiolydd myfyrwyr (y Senedd Fach)	Mewnbwn rheolaidd gan gynrychiolwyr myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar y strategaeth, y cynllun gweithredu, deunyddiau	Cynrychiolydd myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'i benodi (Gorffennaf 2022).	Tymor canolig hyd at yr hirdymor – potensial i sefydlu grŵp athrawon dan hyfforddiant er mwyn cefnogi'r agenda hon. Yr hirdymor – mae'n bosibl y gall cyllid fod	<ul style="list-style-type: none"> – Parhau i bwysleisio a chryfhau pwysigrwydd rôl Cynrychiolydd myfyrwyr yn y Senedd Fach, gan adrodd yn ôl i dîm llywodraethu'r Bartneriaeth bob tymor. – Cryfhau'r broses ymgynghori â myfyrwyr ar ddeunyddiau marchnata, 	<ul style="list-style-type: none"> – Cynrychiolydd Myfyrwyr i barhau i adrodd yn ôl i'r pwyllgor/pwyllgorau Partneriaeth perthnasol. – Parhau i ddatblygu'r broses ymgynghori â myfyrwyr ar ddeunyddiau marchnata, deunyddiau'r cwrs a mentrau cymorth myfyrwyr.



	marchnata / cynnwys y cwrs a mentrau cymorth myfyrwyr.		ar gael i ad-dalu am fewnbwn y myfyrwr.	deunyddiau'r cwrs a mentrau cymorth myfyrwyr. – Cyfrannodd cynrychiolydd myfyrwyr at y gwaith o gwblhau'r strategaeth a'r cynllun gweithredu terfynol	
Ymgynghorwyd â grwpiau cymunedol a'r Bartneriaeth ehangach	Cyngynhyrchu strategaeth a deunyddiau ac adnoddau'r cwrs.	Ni chynhaliwyd ymgynghoriad â grŵp cymunedol.	Cynrychiolwyr tymor byr wedi cael eu ceisio gan ysgolion partner a grwpiau cymunedol; grŵp tymor canolig wedi cael ei sefydlu ac ymgynghorir ag ef yn rheolaidd; yr hirdymor – y grŵp i gymell meysydd i'w harchwilio a'u datblygu.	Ymchwiliwyd i'r meysydd i'w harchwilio a'u datblygu ac adolygwyd cwmnïau trydydd parti, digwyddiadau cymunedol a grwpiau.	– Datblygu a sefydlu aelodaeth ar gyfer panel pobl Ddu, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig y Bartneriaeth; – Y panel i gyfarfod ac ymgynghori ar y broses farchnata, deunyddiau'r cwrs, cymorth myfyrwyr a gweithdrefnau perthnasol eraill. – Parhau â'r gwaith ymchwil i ddatblygu cydberthnasau partneriaeth â grwpiau trawsgymunedol
Eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Pwyllgor Partneriaeth a chyfarfodydd yr is-bwyllgor perthnasol	Cynhaliwyd pedwar cyfarfod y flwyddyn – ysgolion partner arweiniol/Y Brifysgol Agored – caiff yr agenda hon ei gwreiddio mewn arferion.	Dim ond yn ystod trafodaethau am y broses recriwtio / proffil y garfan y trafodir y pwnc hwn.	Cyflwynwyd fel eitem sefydlog ar yr agenda ar unwaith; disgwyliadau ar gyfer y tymor canolig – ffocws yr is-bwyllgor Recriwtio, Derbyn a Chadw ar y dasg a chyflawni prosiectau; yr hirdymor - is-bwyllgorau i ymchwilio i faterion cysylltiedig	Cyflawni tasgau a gweithgareddau a nodwyd gan yr is-bwyllgorau	– Mae amrywiaeth o dasgau a gweithgareddau wedi cael eu nodi a'u cyflawni – rhoddwyd gwybod i Bwyllgor y Bartneriaeth a rhoddwyd y camau perthnasol ar waith.

			penodol.		
Roedd cynnwys/deunyddiau'r cwrs yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan ganolbwyntio ar bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	Cynnydd mewn deunyddiau sy'n parchu ac yn cynnwys profiadau bywyd, diwylliannau a threftadaeth amrywiol.	Cynhaliwyd archwiliad o'r cynnwys gan ddefnyddio adnodd archwilio Y Brifysgol Agored.	Tymor canolig hyd at yr hirdymor - rhagwelir y bydd adnodd archwilio cwricwla Y Brifysgol Agored yn cael ei ddiweddarau a'i wella'n barhaus.	Cyflwynwyd tair seminar Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	Dylanwadodd y dystiolaeth o'r archwiliad ar y diwygiadau/gwelliannau a wnaed i ddeunyddiau'r cwrs ers y llinell sylfaen. Dangoswyd enghreifftiau o gynnwys cwricwla gwrth-hiliol.
Mae Gweithgor Partneriaeth pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Y Brifysgol Agored yn parhau	Mae'r cynnydd yn erbyn y targedau yn cael ei fonitro'n rheolaidd a chyflwynwyd mesurau i gefnogi'r cynnydd	Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i archwilio materion cysylltiedig a chopi drafft o'r strategaeth/cynllun gweithredu (Ebrill 2022)	Y tymor byr - gweithgorau i gefnogi'r broses o sefydlu panel ar gyfer y bartneriaeth; mae aelodaeth tymor canolig yn trosglwyddo i ffurfio panel unigol ar gyfer y bartneriaeth		Mae'r grŵp yn parhau'n rhagweithiol drwy roi amrywiaeth o fentrau ar waith (e.e. cynhaliwyd prosiect ymchwil er mwyn archwilio profiad myfyrwyr)
Hyfforddiant ar amrywiaeth a gwrth-hiliaeth ar gyfer pob rhan o'r Bartneriaeth	Mae pob aelod o staff y bartneriaeth a'r athrawon dan hyfforddiant yn cael budd o gyrsiau a deunyddiau hyfforddiant perthnasol /	Mae rhai aelodau o staff Y Brifysgol Agored yn cynnwys hyfforddiant Union Black* fel targed i ddatblygu staff.	Y tymor byr - archwilio'r potensial i gynig a chyflwyno hyfforddiant Union Black i bob athro dan hyfforddiant/staff yr ysgolion partner; tymor	Anogir pob aelod o staff Y Brifysgol Agored i gwblhau cyrsiau hyfforddiant Union Black a hyfforddiant perthnasol arall. Presenoldeb myfyrwyr mewn seminar Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	Cynyddu cyfraddau cwblhau'r cwrs Union Black a hyfforddiant perthnasol arall. Gweithio gyda'r Brifysgol Agored i gyflwyno hyfforddiant Union Black i ysgolion partner. Gwahodd partneriaid amrywiol (cynrychiolwyr ysgolion a chynfyfyrwyr) i fynychu seminarau fel siaradwyr gwadd.

	cyfredol ar amrywiaeth a gwrth-hiliaeth.		canolig hyd at yr hirdymor – cynyddu cyfraddau cwblhau hyfforddiant Union Black ym mhob rhan o'r Bartneriaeth a chyrsiau perthnasol arall a nodir ac sydd ar gael i'r Bartneriaeth gan gyflenwyr eraill e.e. Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.		
Adolygiadau cynnydd myfyrwyr yn mynd i'r afael â'r agenda ar amrywiaeth	Athrawon dan hyfforddiant o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; cofrestru a chanlyniadau wedi'u cynnwys yn y broses adolygu	Wedi'u cynnwys yn fras yn y broses adolygu (data yn unig)		Sefydlwyd y weithdrefn er mwyn adolygu cynnydd myfyrwyr – sylwadau wedi'u darparu ochr yn ochr â'r data	Parhau i adrodd yn ôl i Gyngor y Gweithlu Addysg/Llywodraeth Cymru Cryfhau'r broses o adolygu cynnydd myfyrwyr
Sefydlu protocolau monitro a gwerthuso	Mae data monitro a gwerthuso cadarn ar gael ar gyfer y Bartneriaeth	Monitro data lefel uchel y garfan a gofynion Cyngor y Gweithlu Addysg/Llywodraeth Cymru yn unig	Mae'r panel a'r cynrychiolwyr myfyrwyr yn cyfrannu at y gwaith o gytuno ar y prosesau a'r dulliau.	Cynhaliwyd adolygiad cyfnodol gan ddefnyddio prosesau a phrotocolau cydgynhyrchiol	Cryfhau'r broses o ddatblygu'r adolygiad cyfnodol a gynhaliwyd gan ddefnyddio prosesau a phrotocolau cydgynhyrchiol

Drwy gydol y broses o roi Strategaeth a Chynllun Gweithredu Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar waith, bydd cysylltiadau'n cael eu cofnodi yng Nghynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Ysgol Addysg, Plentynod, Ieuentid a Chwaraeon ac yng Nghynlluniau Gweithredu strategaeth Mynediad, Cyfranogiad a Llwyddiant a Cydraddoldeb Hil Y Brifysgol Agored.

***Union Black**

Mae 'Union Black: Britain's Black Culture and steps to anti-racism' yn gwrs byr am ddim sy'n archwilio hanes pobl Ddu a diwylliannau ym Mhrydain a'r camau ar gyfer gwrth-hiliaeth.

Datblygwyd y cwrs mewn partneriaeth â Phrifysgolion Santander fel rhan o fenter y DU gyfan i fynd i'r afael ag achosion o aflonyddu'n hiliol mewn sefydliadau Addysg Bellach. Rydym yn gobeithio y bydd y cwrs hwn, a gaiff ei ddarparu gan gyn-gyflwynydd Blue Peter, Ayo Akinwolere a'i gefnogi gan Y Fonesig Jessica Ennis-Hill, ochr yn ochr â mentrau eraill, yn ymgorffori prosesau gwrth-hiliaeth ac yn hyrwyddo cynhwysiant ym mhob rhan o gymuned Y Brifysgol Agored. Cydweithiodd ein tîm arbenigol yn LDS â'r Athro Marcia Wilson, Deon Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Lorraine Jones, Dirprwy Ddeon y tîm hwnnw, i lunio a datblygu'r cwrs ar y cyd ag academyddion ymgynghorol Du o sefydliadau eraill.

Mae'r Brifysgol Agored yn gweithredu dull dim goddefgarwch tuag at achosion o aflonyddu hiliol ac yn condemnio pob ymddygiad hiliol a gwahaniaethol. Mae trafod eich traddodiadau diwylliannol, beth bynnag fo'ch cefndir, yn ffordd hygyrch a diddorol o ddechrau sgwrs am hiliaeth a gwrth-hiliaeth ac rydym yn falch o allu cynnig y cwrs hwn yn rhad ac am ddim i bob myfyriwr ac aelod o staff ym Mhrifysgolion y DU.

*Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored – Rhaglen
TAR Cymru, Gorffennaf 2022*

Adolygwyd: Medi 2023